# GORCHYMYN PRYNU GORFODOL GWEINIDOGION CYMRU (CEFNFFORDD DOLGELLAU I FAN I'R DE O BENBEDW (YR A494) (GWELLIANT CYFNEWIDFA QUEENSFERRY I GARDEN CITY)) 202-

## DATGANIAD O RESYMAU

## 1. CYFLWYNIAD

1.1 Gweinidogion Cymru yw'r Awdurdod Priffyrdd perthnasol ac felly nhw sy'n gyfrifol am y rhwydwaith traffyrdd a chefnffyrdd yng Nghymru.

1.2 Mae Cefnffordd yr A494 (A494(T)) ynghyd â Chefnffyrdd yr A55 a'r A550 yn goridor allweddol rhwng y dwyrain a'r gorllewin – rhwng Queensferry ac Ellesmere Port, yn ogystal â rhwng Gogledd-orllewin Lloegr yn ehangach a gweddill Gogledd Cymru.

1.3 Mae'n gyswllt pwysig yn ardal Mersi a'r Ddyfrdwy ac mae'n cael ei ddefnyddio gan gymysgedd o draffig lleol a strategol. Mae'n rhoi mynediad pwysig i borthladd Caergybi ac ymlaen i Iwerddon. Mae'r llwybr hefyd yn cael ei ddefnyddio'n helaeth gan y rhai sy'n ymweld â'r llu o gyrchfannau poblogaidd i dwristiaid yng Ngogledd Cymru.

1.4 Cafodd pont Afon Dyfrdwy ei hadeiladu ar ddechrau'r 1960au ac mae'n rhan hanfodol o'r coridor hwn, ac mae tua 70,000 o gerbydau'n ei defnyddio bob dydd.

1.5 Mae angen pont newydd oherwydd cyflwr strwythurol gwael dec presennol y bont. Mae'r archwiliadau a'r gwaith monitro hyd yma wedi dod i'r casgliad bod amlder y gwaith atgyweirio a'r risg y bydd angen gwneud gwaith ymyrryd ac atgyweirio mawr, a fyddai'n golygu cau'r bont, yn cynyddu o un flwyddyn i'r llall.

1.6 Yn ogystal â'r Gorchmynion drafft sydd bellach wedi'u cyhoeddi, mae'r cynigion drafft yn cynnwys defnyddio pwerau a roddwyd i Weinidogion Cymru gan Ddeddf Priffyrdd 1980 ar y cyd â Deddf Caffael Tir 1981 (gweler "Adran 8 Pwerau i Adeiladu'r Cynllun", isod) i ledu Cefnffordd bresennol yr A494 rhwng Cyfnewidfa Queensferry a Garden City yn Sir y Fflint (cyfeirir at hyn yn gyffredinol fel "y Cynllun") ac adeiladu llwybr beicio integrol.

1.7 Byddai'r Cynllun yn darparu pont newydd dros Afon Dyfrdwy, i'r de o'r bont bresennol a fyddai'n cael ei dymchwel, ac eithrio'r pileri cynnal yn yr afon a fydd yn aros yn eu lle. Byddai'r man croesi newydd yn briffordd drefol ddwy lôn ddeuol ac yn cynnwys llwybr beicio dwyffordd (gyda hawl tramwy ar droed) a llwybr mynediad cynnal a chadw integrol i gefnffordd yr A494. Byddai'r llwybr beicio yn rhedeg ar hyd ochr dde-ddwyreiniol y bont a byddai'n parhau ar hyd y Cynllun i gyd, o Chester Road East i'r

gogledd-ddwyrain o Afon Dyfrdwy, lle byddai'n cysylltu â llwybr beicio integrol bresennol y gefnffordd.

1.8 Mae'r Cynllun hefyd yn cynnwys uwchraddio ffordd yr A494(T) o boptu'r afon. Ar yr ochr dde-orllewinol, bydd y ffordd yn cael ei lledu a'i gwella am oddeutu 800 metr, gan ddechrau o Gyfnewidfa Queensferry hyd at ddechrau'r bont newydd. Ar yr ochr ogledd-ddwyreiniol, mae'r gwelliannau'n parhau am oddeutu 380 metr o ben draw'r bont. Bydd y ffordd wedi'i huwchraddio yn briffordd drefol ddwy lôn ddeuol, gyda dwy lôn a llain galed 3 metr o led i'r ddau gyfeiriad.

1.9 Mae'r cynigion a gyhoeddwyd yn cynnwys—

(a) Y Gorchymyn Pont a Llinell drafft sydd bellach wedi'i gyhoeddi yw –

'Gorchymyn Cefnffordd Dolgellau i'r De o Birkenhead (Yr A494) (Disodli Pont Dros Afon Dyfrdwy) 202-' sy'n darparu i adeiladu darn o'r gefnffordd, gan gynnwys llwybr beicio dwyffordd (gyda hawl tramwy ar droed) a llwybr mynediad cynnal a chadw integrol i gefnffordd yr A494 sy'n rhedeg ar hyd ei hochr dde-ddwyreiniol, gan ddechrau tua 39 metr i'r de-ddwyrain o ganol y gefnffordd bresennol a thua 20 metr i'r de-orllewin o lan de-orllewinol y ddyfrffordd fordwyol a elwir yn Afon Dyfrdwy ac yn ymestyn i'r gogledd-ddwyrain am 166 metr i bwynt tua 30 metr i'r de-ddwyrain o bwynt canol y gefnffordd bresennol a thua 23 metr i'r gogledd-ddwyrain o lan afon gogledd-ddwyreiniol Afon Dyfrdwy.

(b) Y Gorchymyn Ffyrdd Ymyl drafft sydd bellach wedi'i gyhoeddi yw –

'Gorchymyn Cefnffordd Dolgellau i fan i'r De o Benbedw (Yr A494) (Gwelliant Cyfnewidfa Queensferry i Garden City) (Ffyrdd Ymyl) 202-' sy'n awdurdodi gwella priffyrdd, cau priffyrdd presennol (sy'n cynnwys llwybrau troed, llwybrau beicio a phriffyrdd amlbwrpas), adeiladu priffyrdd newydd (sy'n cynnwys llwybrau troed, llwybrau beicio a phriffyrdd amlbwrpas) cau mynedfeydd preifat i fangreoedd, a darparu mynedfeydd newydd i fangreoedd o'r fath; adeiladu priffyrdd dros dro a chau priffyrdd dros dro.

(c) Y Gorchymyn Prynu Gorfodol drafft, a fydd yn cael ei gyhoeddi cyn bo hir, yw-

'Gorchymyn Prynu Gorfodol Gweinidogion Cymru (Cefnffordd Dolgellau i fan i'r De o Benbedw (Yr A494) (Gwelliant Cyfnewidfa Queensferry i Garden City)) 202-' sy'n ei gwneud yn bosibl i gaffael tir a hawliau y mae eu hangen er mwyn adeiladu a chynnal a chadw'r Cynllun. (Cyfeirir at y rhain gyda'i gilydd fel "y Gorchmynion drafft").

1.10 Mae Datganiad Amgylcheddol wedi cael ei baratoi ar y cyd â'r Gorchmynion drafft uchod, ac mae ar gael i'w archwilio ar wefan Llywodraeth Cymru yn

https://llyw.cymru/a494-pont-afon-dyfrdwy ac fel y nodir yn hysbysiadau cyhoeddus y Cynllun. Rhaid cynnal Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol ar gyfer y Cynllun hwn, yn unol â Rhan VA o Ddeddf Priffyrdd 1980, Cyfarwyddeb 2011/92 EU (fel y'i diwygiwyd gan 2014/52/EU), a Rheoliadau Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol (Diwygiadau Amrywiol Sy'n Gysylltiedig â Harbyrau, Priffyrdd a Thrafnidiaeth) 2017.

1.11 Yn unol â Rhan 6 o Reoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017 (fel y'u diwygiwyd), mae Datganiad i Hysbysu Asesiad Priodol wedi cael ei baratoi ar yr effeithiau posibl sy'n gysylltiedig â'r Cynllun ar y Safleoedd Cadwraeth Ewropeaidd canlynol:

- Ardal Cadwraeth Arbennig Afon Dyfrdwy a Llyn Tegid – Eog, Dyfrgi a Llysywen Bendoll y Môr a'r Afon;

- Safle Ramsar ac Ardal Cadwraeth Arbennig Aber Afon Dyfrdwy – Dolydd heli Iwerydd (gan gynnwys morfa heli), aberoedd (gan gynnwys morfa heli), gwastadeddau llaid a gwastadeddau tywod nad ydynt o dan ddŵr adeg llanw isel, a llysywen bendoll y môr a'r afon;

- Ardal Gwarchodaeth Arbennig Aber Afon Dyfrdwy – Pob nodwedd o ddiddordeb (Môr-wennol gyffredin, Môr-wennol fechan, Môr-wennol bigddu, Rhostog gynffonfraith (dros y gaeaf), Pibydd coesgoch, Rhostog gynffonddu (dros y gaeaf), Gylfinir (dros y gaeaf), Pibydd y mawn (dros y gaeaf), Cwtiad llwyd (dros y gaeaf), Pibydd yr aber (dros y gaeaf), Pioden fôr (dros y gaeaf), Hwyaden lostfain (dros y gaeaf), Pibydd coesgoch (dros y gaeaf), Hwyaden yr eithin (dros y gaeaf) a Chorhwyaden (dros y gaeaf)) ac isnodweddion – glannau creigiog, banciau graean, morfa heli, gwastadeddau llaid rhynglanwol a sianeli aber.

- Mae'r safleoedd hyn bellach yn rhan o'r rhwydwaith safleoedd cenedlaethol fel y'i diwygiwyd gan Reoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019 (Rheoliadau 2019).

1.12 Mae'r Datganiad Amgylcheddol yn disgrifio'r cynigion, yn nodi'r prif effeithiau amgylcheddol ar yr amgylchedd naturiol a'r amgylchedd a wnaed gan ddyn, ac yn disgrifio'r mesurau a gynigir i osgoi, i liniaru ac i leihau'r effeithiau ac i wella'r amgylchedd pan fydd hynny'n berthnasol.

1.13 Mae pedair rhan i'r Datganiad Amgylcheddol:

- Y Crynodeb Annhechnegol

- Cyfrol 1 – Adroddiad yr Asesiad Technegol

- Cyfrol 2 – Ffigurau

- Cyfrol 3 – Atodiadau Technegol

Mae Crynodeb Annhechnegol yn crynhoi'r Datganiad Amgylcheddol mewn iaith annhechnegol. Cyfrol 1 yw prif adroddiad yr asesiad technegol, sy'n rhoi manylion methodoleg a chanlyniadau'r Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol. Mae'n nodi ffyrdd o fynd ati'n effeithiol i liniaru'r effeithiau a nodwyd. Cyfres o ffigurau ategol yw Cyfrol 2, y dylid eu darllen ochr yn ochr â Chyfrol 1. Mae Cyfrol 3 yn gyfres o atodiadau technegol a ddylai hefyd gael eu darllen ochr yn ochr â Chyfrol 1.

## 2. CEFNDIR Y PROSIECT – YR ANGEN I NEWID PONT AFON DYFRDWY YR A494(T)

### Yr Amgylchiadau Presennol

2.1 Mae'r A494(T) yn llwybr sy'n bwysig yn lleol ac yn genedlaethol ac mae'n llwybr allweddol sy'n cysylltu Iwerddon, drwy'r DU, â chyfandir Ewrop. Ar lefel leol a rhanbarthol, dyma brif wythïen economaidd Gogledd Cymru. Mae pont bresennol Afon Dyfrdwy yn gysylltiad hollbwysig ar y llwybr allweddol hwn.

2.2 Mae angen pont newydd oherwydd cyflwr strwythurol gwael dec presennol y bont.

2.3 Os na wneir dim byd, bydd y bont yn dal i ddirywio, ac fe allai hynny olygu gorfod rhoi cyfyngiadau pellach ar bwysau a chau lonydd yn y tymor byr i'r tymor canolig gan arwain at gau yn y tymor canolig i'r tymor hir.

2.4 Byddai newid y rhannau o'r bont sydd wedi dirywio yn golygu cau'r A494(T) am gyfnodau hir iawn. Byddai hynny'n tarfu'n sylweddol ar y llif traffig ac yn achosi oedi i ddefnyddwyr y bont yn ogystal â'r rhai sy'n teithio ar y rhwydwaith ffyrdd lleol.

2.5 Mae diffyg lleiniau caled ar y llwybr a diffyg llwybrau dargyfeirio lleol da yn dwysáu perfformiad gwael y bont ar adegau prysur pan welir cyfnodau hir o oedi, ac mae'ngallu bod yn rhwystr i wasanaethau brys.

2.6 Nid yw'r cyfleusterau ar y bont i bobl nad ydynt yn defnyddio cerbydau modur yn cyrraedd y safon ofynnol chwaith. Mae'r llwybr troed yn gul iawn, ac nid yw bellach yn gysylltiad addas i lawr at Lwybr Arfordir Cymru ar ochr gogledd-ddwyreiniol Afon Dyfrdwy. Nid oes gan lwybr yr A494(T) yn y fan yma gyfleusterau ar wahân i feicwyr.

### Yr Angen am y Cynllun

2.7 Dros y blynyddoedd diwethaf, mae llawer o waith atgyweirio wedi cael ei wneud i gadw'r bont yn weithredol. Fodd bynnag, mae archwiliadau a gwaith monitro wedi dod i'r casgliad bod amlder y gwaith atgyweirio a'r risg y bydd angen llawer iawn o ymyriadau ac atgyweiriadau, a fyddai'n golygu cau'r bont, ar gynnydd.

2.8 Nodwyd bod y bont yn is na'r safon yn 2012 ac fe'i rhoddwyd mewn mesurau arbennig. Mae mesurau rheoli'n cael eu rhoi ar waith ar hyn o bryd i sicrhau bod y risgiau i ddiogelwch y cyhoedd yn cael eu hasesu a'u rheoli. Aseswyd bod gan y bont gapasiti o 40 tunnell, ond ni all llwythi annormal ei defnyddio, felly mae'n rhaid dargyfeirio ar hyd yr A55.

2.9 Yn unol â blaenoriaethau Llwybr Newydd: Strategaeth Drafnidiaeth Cymru 2021, mae angen i Lywodraeth Cymru sicrhau bod coridor yr A494 yn cael ei gynnal a'i weithredu mewn ffordd sy'n bodloni rhwymedigaethau statudol, yn lleihau effeithiau amgylcheddol niweidiol, yn hyrwyddo teithio llesol, yn cynnal ac yn creu cyflogaeth ac yn lleihau'r ôl-groniad o waith cynnal a chadw.

2.10 Mae datrys y gwendid enbyd hwn ar goridor yr A494 hefyd yn cyd-fynd â blaenoriaethau Strategaeth Drafnidiaeth Cymru i wneud y defnydd gorau o'r seilwaith trafnidiaeth sydd eisoes yn bodoli drwy ei gynnal a'i reoli'n effeithiol ac yn effeithlon.

## 3. AMCANION Y CYNLLUN ARFAETHEDIG

4.1 Drwy weithio gyda rhanddeiliaid allweddol, a thrwy gael dealltwriaeth fanwl o'r problemau presennol sy'n wynebu teithwyr wrth iddyn nhw ddefnyddio'r bont, mae Gweinidogion Cymru wedi datblygu Cynllun sydd â'r amcanion canlynol:

- Cynnal cysylltedd coridor strategol yr A494(T) drwy roi sylw i Bont Afon Dyfrdwy sydd wedi dod i ddiwedd ei hoes.
- Cyflwyno cynifer â phosibl o gyfleoedd i newid dulliau teithio drwy gynnig gwell darpariaeth ar gyfer dulliau teithio amgen.
- Lleihau allyriadau carbon gydol oes y cynllun drwy ddefnyddio mesurau lleihau carbon wrth ddylunio, adeiladu a gweithredu.
- Cynnal a gwella'r amgylchedd lleol drwy sicrhau budd net hirdymor i fioamrywiaeth.
- Gwella gwydnwch coridor yr A494(T) drwy leihau effeithiau digwyddiadau a damweiniau a gwella diogelwch i ddefnyddwyr y ffordd a staff cynnal a chadw.
- Cynnal cysylltedd ar hyd coridor strategol yr A494(T) yn ystod gwaith adeiladu er mwyn lleihau'r effeithiau ar drigolion, ar fusnesau ac ar draffig strategol a lleol.

## 4. YMGYNGHORI

4.1 Drwy ddeall y problemau presennol a'r heriau i'r dyfodol, cafwyd rhestr hir o opsiynau posibl a fyddai'n ceisio cyflawni amcanion y Cynllun.

4.2 Cafodd yr opsiynau hyn eu hasesu drwy ddefnyddio Arweiniad ar Arfarnu Trafnidiaeth Cymru, sef arweiniad Llywodraeth Cymru ar gynllunio ac arfarnu trafnidiaeth, a thrwy broses o arfarnu'r elfennau dylunio a pheirianneg, trafnidiaeth ac amgylcheddol, cafodd yr opsiynau hyn eu hasesu i lunio rhestr fer o bum opsiwn. Dyma'r opsiynau a gyrhaeddodd y rhestr fer:

- Opsiwn B – Pont Afon Dyfrdwy strwythur dwbl newydd, ynghyd â chyswllt teithio llesol fel rhan o'r danbont reilffordd bresennol. Byddai hyn yn disodli Pont Afon Dyfrdwy â dwy bont newydd. Byddai'r gwaith ar y rheilffordd yn cael ei leihau gydag ardal llain y briffordd bresennol drwy ailffurfweddu'r strwythur i hwyluso llwybr teithio llesol. Hyd at 3km o lwybrau teithio llesol newydd a gwell.

- Opsiwn C - Pont Afon Dyfrdwy strwythur dwbl newydd ynghyd â thanbont reilffordd ar wahân ar gyfer teithio llesol. Byddai hyn yn disodli Pont Afon Dyfrdwy â 2 bont newydd. Byddai tanbont newydd yn cael ei hadeiladu drwy arglawdd y rheilffordd ar gyfer llwybr teithio llesol. Hyd at 3km o lwybrau teithio llesol newydd a gwell.

- Opsiwn D - Pont Afon Dyfrdwy strwythur sengl all-lein newydd ynghyd â thanbont reilffordd newydd tua'r gorllewin. Byddai pont newydd yn cael ei chodi ychydig yn uwch i fyny'r afon oddi wrth Bont Afon Dyfrdwy. Byddai pont bresennol yr afon naill ai'n cael ei hailbwrpasu ar gyfer defnydd heb fod yn foduron neu'n cael ei dymchwel. Byddai tanbont newydd yn cael ei hadeiladu drwy arglawdd y rheilffordd ar gyfer traffig ffyrdd tua'r gorllewin a llwybr teithio llesol. Hyd at 3km o lwybrau teithio llesol newydd a gwell.

- Opsiwn E - Pont Afon Dyfrdwy strwythur sengl all-lein newydd, ynghyd â chyswllt teithio llesol fel rhan o'r danbont reilffordd bresennol. Byddai pont newydd yn cael ei chodi ychydig yn uwch i fyny'r afon oddi wrth Bont Afon Dyfrdwy. Byddai'r gwaith ar y rheilffordd yn cael ei leihau gydag ardal llain y briffordd bresennol drwy ailffurfweddu'r strwythur i hwyluso llwybr teithio llesol. Hyd at 3km o lwybrau teithio llesol newydd a gwell.

- Opsiwn F - Pont Afon Dyfrdwy strwythur sengl all-lein newydd ynghyd â thanbont reilffordd ar wahân ar gyfer teithio llesol. Byddai pont newydd yn cael ei chodi ychydig yn uwch i fyny'r afon oddi wrth Bont Afon Dyfrdwy. Byddai tanbont newydd yn cael ei hadeiladu drwy arglawdd y rheilffordd ar gyfer llwybr teithio llesol. Hyd at 3km o lwybrau teithio llesol newydd a gwell.

4.3 Daeth arfarniad Cam 2 Arweiniad ar Arfarnu Trafnidiaeth Cymru i'r casgliad mai Opsiwn E oedd yr opsiwn â'r perfformiad gorau ac mae'n golygu adeiladu pont newydd i gario dwy lôn o draffig tua'r dwyrain a thua'r gorllewin a llwybr cyd-ddefnyddio i feicwyr ac i gerddwyr. Cafodd yr opsiwn hwn sgôr uchel yn arfarniad Arweiniad ar Arfarnu Trafnidiaeth Cymru oherwydd yr agweddau allweddol canlynol:

- Mae’n cyd-fynd yn gryf â blaenoriaethau a gofynion Strategaeth Drafnidiaeth Cymru.

- Llai o effaith adeiladu oherwydd byddai’r rhan fwyaf o'r gwaith adeiladu'n cael ei wneud heb amharu ar y traffig presennol sy'n defnyddio'r A494(T).

- Cyfleoedd gwell i leihau lefel y carbon yn ystod y gwaith adeiladu ac ailddefnyddio tir presennol er mwyn gwella bioamrywiaeth.

- Llai o effaith ar asedau trydydd parti fel Rheilffordd Arfordir Gogledd Cymru a chyflenwadau cyfleustodau cyhoeddus fel trydan, dŵr/carthffosiaeth a phibellau a cheblau cyflenwi nwy.

- Cyfleusterau teithio llesol gwell gyda chysylltiadau newydd.

- Costau cyfalaf a charbon adeiladu is.

4.4 Rhwng mis Rhagfyr 2024 a mis Mawrth 2025 cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus tair wythnos ar ddeg, gan gynnwys arddangosfa ymgynghori â'r cyhoedd ddydd Mawrth 21 Ionawr 2025. Cafodd aelodau o'r cyhoedd eu gwahodd i gyflwyno sylwadau ar y pum opsiwn ar y rhestr fer. Roedd Opsiwn E wedi cael ei restru fel yr opsiwn â’r perfformiad gorau yn dilyn asesiad Arweiniad ar Arfarnu Trafnidiaeth Cymru.

4.5 Cynhaliwyd cyfarfodydd Grŵp Cyswllt Awdurdodau Lleol (LALG), Grŵp Cyswllt Amgylcheddol (ELG) a Grŵp Cyswllt Teithio Llesol (ATLG) gydag ymgyngoreion allweddol yn ystod y broses o ddatblygu dyluniad y Cynllun a'r broses asesu. Bydd y rhain yn dal i gael eu cynnal yn rheolaidd.

4.6 Roedd yr ymgynghoriad cyhoeddus yn dangos cefnogaeth gref i Opsiwn E ac awydd i'r Cynllun fynd rhagddo cyn gynted â phosibl. Yn dilyn hynny, cyhoeddodd Ken Skates, Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru, ym mis Mehefin 2025 mai Opsiwn E oedd yr opsiwn a oedd yn cael ei ffafrio i symud ymlaen i'r cam datblygu nesaf ac yna cyhoeddi Gorchmynion drafft. Mae Opsiwn E, sy’n cael ei alw yn ‘y Cynllun arfaethedig’ yng ngweddill y ddogfen hon, yn cael ei ddisgrifio yn yr adran nesaf.

4.7 Ymgynghorwyd ag ymgymerwyr statudol ynghylch dargyfeirio a diogelu seilwaith, ac effeithiau’r Cynllun ar eu hasedau. Cysylltwyd â pherchnogion tir, partïon eraill sydd â buddiant, a phobl y byddai’r Cynllun yn cael effaith uniongyrchol ar eu heiddo neu eu mynedfeydd preifat, a rhoddwyd gwybod iddynt am fanylion y Cynllun arfaethedig.

## 5. DISGRIFIAD CYFFREDINOL O’R CYNLLUN ARFAETHEDIG

5.1 Mae’r holl Gynllun tua 1.3 cilometr o hyd, yn ymestyn o ochr gogledd-ddwyreiniol Cyfnewidfa Queensferry yn y de-orllewin, tua’r gogledd-ddwyrain i fan sydd tua 380 metr i’r gogledd-ddwyrain o lan gogledd-ddwyreiniol Afon Dyfrdwy yn Garden City.

5.2 Mae’r Cynllun arfaethedig yn cynnwys pont dros ddyfroedd mordwyol Afon Dyfrdwy.

5.3 Bydd y bont newydd i'r de-ddwyrain o'r bont bresennol. Bydd traffig cerbydau yn ei defnyddio a rhan integrol o’r gefnffordd fydd llwybr beicio cyd-ddefnyddio i feicwyr ac i gerddwyr, a fydd hefyd yn llwybr cynnal a chadw i’r gefnffordd.

5.4 Bydd y gwaith ar y briffordd yn ymestyn o'r man lle mae'r A494(T) yn mynd o dan Reilffordd Arfordir y Gogledd (CNH3) yn y de-orllewin, i'r gogledd-ddwyrain o Afon Dyfrdwy yn Garden City. Bydd y gwelliannau'n cynnwys cyflwyno llain galed newydd i bob cyfeiriad sy'n cysylltu â'r lleiniau caled presennol i'r dwyrain o Afon Dyfrdwy, gwelliannau i aliniad a systemau draenio newydd.

5.5 Bydd llwybr beicio integrol (gyda hawliau tramwy i gerddwyr), ynghyd â llwybr mynediad cynnal a chadw, a fydd yn rhan o’r A494(T) yn cael ei ddarparu ar hyd y Cynllun i gyd. Bydd yn rhedeg ochr yn ochr â’r gerbytffordd tua’r gorllewin, o danffordd yr A494(T) yng Nghyfnewidfa Queensferry, i’r gogledd-ddwyrain o Afon Dyfrdwy, lle bydd yn ymuno â llwybr beicio integrol presennol yr A494(T). Bydd llwybrau newydd eraill i ddefnyddwyr heblaw modurwyr yn cael eu darparu i gysylltu â’r rhwydwaith priffyrdd lleol.

5.6 Bydd cyffordd blaenoriaeth chwith i ymuno/chwith i adael newydd a gwell yn cael ei darparu ar gerbytffordd yr A494(T) tua’r gorllewin i fynd i safle Sipsiwn a Theithwyr Riverside, ac i safleoedd masnachol ar lan de-orllewinol Afon Dyfrdwy ac i orsaf pwmpio afon.

5.7 Amcangyfrifir y bydd y Cynllun (heb gynnwys TAW), ar sail prisiau ail chwarter 2025, yn £144 miliwn.

5.8 Disgwylir y bydd cyfnod adeiladu’r Cynllun oddeutu 32 mis. Er mwyn tarfu cyn lleied â phosibl ar draffig yr A494(T), byddai'r bont newydd yn cael ei lleoli i'r de-ddwyrain o'r bont bresennol ac ni fyddai'r gwaith adeiladu yn digwydd ar y briffordd bresennol, sy’n golygu bydd y ffordd yn aros ar agor yn ystod y rhan fwyaf o'r gwaith adeiladu.

## 6. PRIF NODWEDDION Y CYNLLUN ARFAETHEDIG

6.1 Dyma brif nodweddion y Cynllun arfaethedig:

(a) pont newydd dros Afon Dyfrdwy gyda dwy lôn i draffig i’r naill gyfeiriad a’r llall, a llwybr beicio cyfagos (gyda hawliau tramwy i gerddwyr), a fydd yn cael ei rannu â llwybr cynnal a chadw i’r gefnffordd, a fydd yn integrol i’r A494(T);

(b) gwelliannau i gerbytffordd bresennol yr A494(T), i'r dwyrain o'r lle mae'r ffordd yn pasio o dan Reilffordd Arfordir Gogledd Cymru (CNH3), gan gynnwys cyflwyno llain galed newydd i bob cyfeiriad sy'n cysylltu â'r lleiniau caled presennol i'r dwyrain o Afon Dyfrdwy, gwella aliniad a chyflwyno systemau draenio cynaliadwy;

(c) cyffordd flaenoriaeth newydd sy'n cysylltu ardal Riverside (i'r de o bont newydd Afon Dyfrdwy) â cherbytffordd tua'r gorllewin yr A494(T);

(d) ffordd gyswllt newydd ar gyfer y briffordd sy'n cysylltu'r gyffordd flaenoriaeth a ddisgrifir yn (c) uchod â safle Sipsiwn a Theithwyr Riverside, eiddo masnachol ar lan de-orllewinol Afon Dyfrdwy, a gorsaf bwmpio afon;

(e) llwybr beicio, i gerddwyr ac i feicwyr, a fydd wedi'i gyfuno â llwybr mynediad i gerbydau cynnal a chadw, a fydd yn rhedeg ar hyd ochr de-ddwyreiniol y gerbytffordd tua'r gorllewin, yn rhan o'r A494(T), rhwng Cyfnewidfa Queensferry a llwybr beicio integrol yr A494(T) ar ochr gogledd-ddwyreiniol Afon Dyfrdwy. Bydd y llwybr beicio newydd yma ar yr A494(T) yn cysylltu â – (i) Llwybr Arfordir Cymru/NCN 568 ar ochr gogledd-ddwyreiniol Afon Dyfrdwy, yn ogystal â'r llwybr beicio cefnffordd i'r gogledd-ddwyrain o'r afon sy'n rhedeg drwy ac yn cysylltu â Drome Corner a Sealand Road; (ii) y cysylltiad llwybr beicio lleol newydd â'r B5441 Station Road a grybwyllir yn (f) isod; (iii) y cysylltiad llwybr beicio lleol newydd a'r ffordd ddiddosbarth Factory Road a grybwyllir yn (g) isod; a (iv) y rhwydwaith o lwybrau beicio integrol a thanffordd Cyfnewidfa Queensferry, ar ochr de-ddwyreiniol yr A494(T);

(f) llwybr beicio lleol newydd, i gerddwyr ac i feicwyr, a fydd yn cael ei rannu â llwybr mynediad preifat i gerbydau, a fydd yn rhedeg o bwynt terfyn gogledd-orllewinol y ffordd gyswllt newydd ar gyfer y briffordd a ddisgrifir yn (d) uchod, gan ymestyn i'r gogledd-ddwyrain, ac wedyn i'r gogledd-orllewin yn gyffredinol, gan groesi o dan y bont newydd ar lan de-orllewinol Afon Dyfrdwy, gan gysylltu â'r B5441 Station Road;

(g) llwybr beicio lleol newydd, i gerddwyr ac i feicwyr, a rennir â llwybr mynediad preifat i gerbydau, a fydd yn rhedeg o derfyn gogledd-orllewin ffordd gyswllt y briffordd a ddisgrifir yn (d) uchod, gan ymestyn i'r de-ddwyrain ac yna'n gyffredinol i'r de-orllewin mewn cysylltiad â Factory Road, ac a fydd yn cysylltu â llwybr beicio integrol yr A494(T) a grybwyllir yn (e) uchod;

(h) gwella llwybr anffurfiol i gerddwyr ac i feicwyr a mynedfa breifat i gerbydau sy'n rhedeg rhwng Llwybr Arfordir Cymru/NCN 568 a Claremont Avenue.

(i) llwybr troed newydd yn rhedeg rhwng ffin priffordd yr A494(T) a chyffordd Chemistry Lane/Factory Road i'r de-orllewin o Lwybr Troed 15 (West Saltney) a

fydd yn cael ei gau, ac ar hyd ffin gogledd-ddwyreiniol Rheilffordd Arfordir y Gogledd (CNH3);

(j) gyda'i gilydd, bydd y darpariaethau arfaethedig i ddefnyddwyr heblaw modurwyr a ddisgrifir yn (e) i (i) uchod, ynghyd â gwelliannau i gysylltiadau sydd eisoes yn bodoli, yn darparu hyd at 3 km o lwybrau cerdded a beicio newydd a gwell. Mae hyn yn cynnwys llwybr cerdded a beicio cyhoeddus parhaus sy'n ymestyn o gyffordd Drome Corner yn y gogledd-ddwyrain i Gyfnewidfa Queensferry yn y de-orllewin, gyda chysylltiadau ychwanegol yn ôl ac ymlaen i Station Road y B5441 a Factory Road ddiddosbarth. Mae disgwyl i'r gwelliannau hyn wella diogelwch beicwyr, cerddwyr a defnyddwyr cerbydau ar yr A494(T) drwy gadw traffig cerbydau modur a thraffig nad yw'n gerbydau modur ar wahân yn glir. Mae'n annhebygol y bydd llawer o gerbydau cynnal a chadw yn defnyddio rhai o'r llwybrau hyn yn aml;

(k) dargyfeirio 'Queensferry Drain' (prif afon a ddynodwyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru), sydd ar ochr de-ddwyreiniol yr A494(T). Ar hyn o bryd mae'r ffos yn llifo drwy gwlfert o dan yr A494(T), i'r gorllewin o Reilffordd Arfordir y Gogledd (CNH3), ac mae'n parhau mewn sianel agored i'r dwyrain o'r rheilffordd. Fel rhan o'r Cynllun, byddai adrannau newydd o sianel agored yn cael eu hadeiladu ar ochr de-ddwyreiniol yr A494(T) wedi'i lledu, o boptu Rheilffordd Arfordir Gogledd Cymru. Bydd y cwlfert sydd eisoes o dan y rheilffordd yn cael ei gadw a'i ategu gan adrannau cwlfert newydd i gysylltu'r sianeli agored. Byddai seilwaith draenio ychwanegol hefyd yn cael ei ddarparu yn y coridor cefnffordd wedi'i ledu i gynnal gofynion draenio cyffredinol y Cynllun;

(l) bydd llifddor Afon Dyfrdwy newydd yn cael ei chreu, a bydd cyfleuster Gorsaf Bwmpio newydd Queensferry yn cael ei ddarparu i'r de-orllewin o Afon Dyfrdwy ac ym mhwynt terfyn gogledd-orllewin ffordd gyswllt newydd y briffordd sy'n cysylltu ag ardal Riverside fel sy'n cael ei ddisgrifio yn (d) uchod;

(m) dymchwel pont bresennol A494 Afon Dyfrdwy, ac eithrio pileri'r afon, a fydd yn aros yn eu lle.

(n) bydd gwaith lliniaru amgylcheddol lleol, o ganlyniad i'r Cynllun, yn cael ei wneud –

- i'r gogledd-ddwyrain o ffordd ddiddosbarth Chester Road East ym mhwynt terfyn gogledd-orllewinol newydd y ffordd, lle bydd coed aeddfed yng ngardd gefn 1 Bridge Houses (a fydd yn cael ei ddymchwel) yn aros er mwyn osgoi colli cynefin ac er mwyn rhoi cysgod i'r clwydfannau ystlumod arfaethedig o olau artiffisial.

- gwrychoedd newydd i gysylltu cynefinoedd sydd eisoes yn bodoli i'r de-ddwyrain o'r Queensferry Drain newydd (Sianel Agored), oddi ar ffordd ddiddosbarth Chester Road East, ynghyd â rhagor o ardaloedd o ystad

feddal fymryn i’r de-orllewin o Reilffordd Arfordir y Gogledd (CNH3) ym mhen gogledd-ddwyreiniol y ffordd fynediad cynnal a chadw newydd i’r Sianel newydd.

- drwy greu gwrychoedd newydd i gysylltu cynefinoedd sydd eisoes yn bodoli, i'r de-ddwyrain o Queensferry Drain (Sianel Agored) ar ei aliniad newydd, ar ffin gogledd-orllewinol Gwaith Trin Carthion Dŵr Cymru Queensferry, ynghyd ag ardaloedd eraill o ystad feddal ychydig i'r gogledd-ddwyrain o Reilffordd Arfordir Gogledd Cymru (CNH3) ym mhen de-orllewinol ffordd fynediad cynnal a chadw newydd y Sianel ar ei haliniad newydd.

- drwy wrychoedd newydd i gysylltu cynefinoedd sydd eisoes yn bodoli i'r de orllewin o Fferm Ferrybank ac i'r de-ddwyrain o lwybr beicio'r gefnffordd sy'n cysylltu Llwybr Arfordir Cymru/NCN 568 â Foxes Lane.

- drwy osod a monitro blychau ystlumod ger Cyfnewidfa Queensferry, i'r de o'r A494(T) ac i'r gogledd ddwyrain o'r B5129 Chester Road East, gan roi cyfleoedd clwydo a gwell cysylltedd rhwng cynefinoedd sydd eisoes yn bodoli.

- drwy adeiladu adeilad clwydfan ystlumod penodol a gwaith monitro dilynol ar dir i'r de-orllewin o Afon Dyfrdwy, wrth ymyl yr orsaf bwmpio arfaethedig a ger rhan ddeheuol y Cynllun, gan gyfrannu at ddarparu cynefinoedd tymor hir a chyfleoedd rhywogaethau ar gyfer bioamrywiaeth.

Bydd y mesurau lliniaru hyn yn rhoi cynefin parhaol i anifeiliaid a seilwaith gwyrdd a fydd yn integreiddio’r Cynllun yn fwy sensitif i’r amgylchedd ehangach;

(o) byddai’r Cynllun yn arwain at ddymchwel pedwar eiddo, Rhifau 1-4 Bridge Houses – mae tri ohonynt (Rhifau 2-4) yn eiddo i Weinidogion Cymru, ac un (Rhif 1) yn eiddo i Gyngor Sir y Fflint. Mae pob eiddo yn wag;

(p) dyma'r safleoedd busnes a fyddai'n cael eu colli o ganlyniad i’r Cynllun – T K Motor Repairs, yn Uned 1, ar ochr orllewinol Chester Road East diddosbarth; a safle J & M Garner (Haulage) Limited, i’r de-ddwyrain o’r A494(T) ac ar lan de-orllewinol Afon Dyfrdwy;

(q) bydd y briffordd, a’r ffordd fynediad breifat, sy’n cael ei galw’n Bypass Road, yn syth oddi ar ochr de-ddwyreiniol yr A494(T) sy’n gwasanaethu buddiannau tir eraill, gan gynnwys Riverside Joinery a Chaloner Auto Repairs Ltd, ar lan de-orllewinol Afon Dyfrdwy, a Safle Sipsiwn a Theithwyr Riverside, yn ogystal â safle Gorsaf Bwmpio Queensferry a safle Llifddor Afon Dyfrdwy, yn cael eu tynnu o’r Cynllun, ac yn cael eu disodli gan gyffordd flaenoriaeth a ffordd gyswllt fel y disgrifir yn (c) a (d) uchod;

(r) cynigir gwaith lliniaru amgylcheddol oddi ar y safle ar gyfer ardal blaendraeth Cors Maes-glas, ger Walwen. Mae'r safle hwn i'r gogledd-ddwyrain o Ganolfan Ailgylchu Maes-glas a Rheilffordd Arfordir Gogledd Cymru (CNH 3), ac i'r de-orllewin o aber Afon Dyfrdwy oddi ar Lan Bagillt, yng Nghymuned Treffynnon. Bydd y gwaith yn cynnwys cael gwared ar batsys rwbel, olion tebygol o hen safle tirlenwi cyfagos. Bydd yr ardal yn cael ei gwarchod a'i monitro i gefnogi cytrefiad naturiol cynefin morfa heli. Os bydd yr amodau amgylcheddol yn newid, gellir gwneud gwaith cyfoethogi wedi'i dargedu i gynnal rhywogaethau morfa heli allweddol. Bydd cynllun rheoli a monitro amgylcheddol pwrpasol yn cael ei roi ar waith yn ystod y cam cyn adeiladu, gydag asesiadau monitro ecolegol parhaus am bum mlynedd ar ôl adeiladu, i olrhain datblygiad cynefinoedd a sicrhau llwyddiant o ran adfer cynefinoedd yn y tymor hir.

(s) mewn perthynas â'r darnau o briffordd neu'r mynedfeydd preifat a fydd yn cael eu cau o dan y Cynllun, mae Gweinidogion Cymru yn fodlon fod naill ai llwybr neu fynedfa arall sy'n rhesymol o gyfleus ar gael neu y bydd un yn cael ei darparu, neu nad oes galw rhesymol am fynediad i'r safle perthnasol.

## 7. Y CYD-DESTUN POLISI

7.1 Mae adolygiad o'r cyd-destun deddfwriaethol a pholisi o safbwynt amgylcheddol ac ar gyfer y Cynllun wedi'i gynnwys yn y Datganiad Amgylcheddol, Cyfrol 1 Pennod 5: Y Cyd-destun Deddfwriaethol a Pholisi.

7.2 Yn gryno, mae'r prif ddogfennau deddfwriaethol a pholisi a ystyriwyd yn y Datganiad Amgylcheddol yn cynnwys:

(a) Deddf Priffyrdd 1980

*Y Ddeddf sy'n ei gwneud yn bosibl i wneud y Gorchmynion ac, os gwneir y Gorchmynion, i gyflawni gwaith y Cynllun.*

(b) Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 a Deddf Llywodraeth Cymru 2006

*Y pwerau deddfwriaethol a drosglwyddodd bwerau datganoledig i Weinidogion Cymru.*

(c) Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016

*Deddf sy'n darparu fframwaith i sicrhau y bydd rheoli adnoddau naturiol mewn ffordd gynaliadwy yn ganolog i'r broses o ddylunio datblygiadau, gan gynnwys cynlluniau ffyrdd er mwyn iddynt allu cael eu darparu mewn ffordd sy'n rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy, a bydd hyn yn ystyriaeth graidd wrth wneud penderfyniadau.*

(d) Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

*Deddf sy'n gwireddu gwelliannau i lesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, gyda saith nod llesiant yn ganolog iddi – Cymru lewyrchus; Cymru gydnerth; Cymru iachach; Cymru sy'n fwy cyfartal; Cymru o gymunedau cydlynus; Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu; a Chymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang.*

(e) Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013

*Deddf sy'n mynnu bod awdurdodau lleol yng Nghymru yn mapio ac yn cynllunio ar gyfer llwybrau teithio llesol addas, ac yn adeiladu ac yn gwella eu seilwaith cerdded a beicio, ac yn ystyried anghenion cerddwyr, beicwyr a phobl eraill nad ydynt yn defnyddio cerbydau modur gan wella'r ddarpariaeth iddyn nhw. Mae hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol hyrwyddo siwrneiau teithio llesol.*

(f) Deddf Hawliau Dynol 1998

*Deddf sy'n nodi'r hawliau a'r rhyddid sylfaenol y mae gan bawb yn y DU hawl iddynt. Mae'n ymgorffori'r hawliau a nodir yn y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol (ECHR) mewn cyfraith ddomestig. Mae'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol yn gwarchod hawliau dynol pobl mewn gwledydd sy'n perthyn i Gyngor Ewrop (sy'n cynnwys y DU). Mae'r Ddeddf yn gwahardd awdurdodau cyhoeddus rhag gweithredu mewn ffordd sy'n anghydnaws â'r Confensiwn.*

*Yn benodol –*

*Mae Erthygl 1 y Protocol Cyntaf yn diogelu hawl pob person naturiol neu gyfreithiol i fwynhau ei eiddo'n heddychlon. Ni ellir amddifadu neb o'i eiddo, ac eithrio er budd y cyhoedd ac yn amodol ar yr amodau y mae'r gyfraith yn darparu ar eu cyfer ac egwyddorion cyffredinol cyfraith ryngwladol.*

*Mae Erthygl 8 yn diogelu'r hawl i barch at eich bywyd preifat, eich bywyd teuluol, eich cartref a'ch gohebiaeth. Ni chaiff unrhyw awdurdod cyhoeddus ymyrryd â'r buddiannau hynny i arfer yr hawl hon oni bai fod hynny'n digwydd yn unol â'r gyfraith a'i fod yn angenrheidiol mewn cymdeithas ddemocrataidd er budd diogelwch gwladol, diogelwch y cyhoedd neu les economaidd y wlad, er mwyn atal anhrefn neu drosedd, er mwyn diogelu iechyd neu foesau, neu er mwyn diogelu hawliau neu ryddid pobl eraill.*

*Wrth ystyried y materion hyn, mae wedi cael ei gydnabod ei bod yn rhaid cael cydbwysedd teg rhwng buddiannau'r unigolyn a buddiannau'r gymuned gyfan, sy'n cystadlu â'i gilydd.*

(g) Deddf Newid yn yr Hinsawdd 2008

*Deddf sy'n gosod dyletswydd i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr y DU erbyn 2050 i lefel sydd o leiaf 100% yn is na lefelau 1990, ac i osod cyllidebau carbon ar gyfnodau treigl o bum mlynedd yn olynol a chynigion i gyrraedd y cyllidebau hynny.*

(h) Adnewyddu'r Economi: Cyfeiriad Newydd (Gorffennaf 2010)

*Mae'n amlinellu'r rôl y gall Llywodraeth Cymru ei chwarae i ddarparu'r amodau a'r fframwaith gorau i alluogi'r sector preifat i dyfu a ffynnu.*

(i) Cenhadaeth Economaidd: Blaenoriaethau ar gyfer Economi Gryfach 2023

*Nodi blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer adeiladu economi fwy ffyniannus cyfartal a gwyrddach.*

(j) Llwybr Newydd: Strategaeth Drafnidiaeth Cymru 2021

*Fframwaith cenedlaethol ar gyfer cynllunio trafnidiaeth yng Nghymru a hefyd Strategaeth Drafnidiaeth Llywodraeth Cymru. Mae'n cynnwys yr uchelgeisiau rhwng 2021 a 2041, a'r blaenoriaethau rhwng 2021 a 2026. Mae'r ddogfen yn amlinellu'r angen i ddiogelu'r rhwydwaith ffyrdd presennol at y dyfodol o ran dibynadwyedd a gwydnwch a rhaid datblygu pob Cynllun yn unol â hierarchaeth trafnidiaeth gynaliadwy.*

(k) Y Strategaeth Buddsoddi yn Seilwaith Cymru (2021)

*Mae'r strategaeth buddsoddi yn seilwaith Cymru 2021 yn rhoi gweledigaeth a strategaeth fuddsoddi 10 mlynedd Llywodraeth Cymru sydd wedi'u cynllunio i flaenoriaethu, cwmpasu a chydlynu'r gwaith o gyflawni buddsoddiadau mawr Llywodraeth Cymru mewn seilwaith, gan wella llesiant economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol a diwylliannol hirdymor pobl a chymunedau yng Nghymru.*

(l) Cymru'n Un: Cenedl Un Blaned (Mai 2009)

*Gosod amcanion i gyflawni nod datblygu cynaliadwy; 'galluogi pawb ym mhob cwr o'r byd i fodloni eu hanghenion sylfaenol, a mwynhau bywyd o well ansawdd heb beryglu ansawdd bywyd cenedlaethau'r dyfodol.'*

(m) Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040

*Mae'r cynllun datblygu cenedlaethol hwn yn cwmpasu Cymru gyfan ar gyfer y cyfnod hyd at 2040. Mae'r cynllun yn ceisio rhoi strategaeth i fynd i'r afael â*

*blaenoriaethau cenedlaethol allweddol drwy'r system gynllunio. Mae'n cynnwys yr economi, tai a'r amgylchedd. Mae'n dangos lle dylid cynnal datblygiadau o bwys cenedlaethol fel prosiectau ynni, trafnidiaeth, dŵr a gwastraff. Mae'r cynllun yn dangos lle dylai twf ddigwydd, pa seilwaith a gwasanaethau sydd eu hangen.*

(n) Polisi Cynllunio Cymru

*Dogfen polisi cynllunio cenedlaethol Llywodraeth Cymru sydd wedi cael ei chyhoeddi, a ddefnyddir gan awdurdodau cynllunio lleol i baratoi eu Cynlluniau Datblygu Lleol.*

(o) Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru 2025.

*Ym mis Mehefin 2025, roedd Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru ar fin cael ei fabwysiadu yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus. Mae'r cynllun yn nodi'r uchelgeisiau a'r blaenoriaethau ar gyfer trafnidiaeth yng Ngogledd Cymru, gan gynnwys Parc Cenedlaethol Eryri, a'r buddsoddiadau sydd eu hangen.*

(p) Polisi Lleol – Cynllun Datblygu Lleol Sir y Fflint 2015 – 2030

*Wedi'i fabwysiadu ym mis Ionawr 2023, mae'r Cynllun Datblygu Lleol yn nodi'r fframwaith polisi a'r dyraniadau safleoedd y bydd ceisiadau cynllunio ar gyfer datblygu yn cael eu harwain a'u barnu yn eu herbyn.*

7.3 Mae'r Cynllun arfaethedig yn cyfrannu'n gadarnhaol at amcanion a blaenoriaethau'r dogfennau polisi uchod. Yn unol â Strategaeth Drafnidiaeth Cymru, mae'n ceisio diogelu'r rhwydwaith ffyrdd at y dyfodol drwy wella gwydnwch rhwydwaith yr A494(T). Mae'n cyd-fynd â'r hierarchaeth trafnidiaeth gynaliadwy drwy sicrhau darpariaeth teithio llesol newydd a gwell ac nid yw'n ceisio creu teithiau ychwanegol gan gerbydau. Ar ben hynny, drwy ei ddyluniad mae'n ceisio lleihau ei effaith ar Afon Dyfrdwy a'i gorlifdiroedd, a thrwy ailgylchu gwastraff o'r bont bresennol mae'n lleihau lefel y carbon sy'n cael ei greu.'

## 8. PWERAU I ADEILADU'R CYNLLUN

*Pwerau Cyffredinol*

8.1 Byddai'r Cynllun yn cael ei awdurdodi a'i adeiladu gan ddefnyddio pwerau a roddwyd i Weinidogion Cymru drwy Ddeddf Priffyrdd 1980 ar y cyd â Deddf Caffael Tir 1981. Mae gan Weinidogion Cymru y pŵer i wella'r gefnffordd bresennol (o dan bwerau cyffredinol adran 62 o Ran V o Ddeddf Priffyrdd 1980) a fyddai'n eu hawdurdodi i ledu'r gefnffordd bresennol y naill ochr i Afon Dyfrdwy, ei gwella a gwneud gwaith arall iddi, ac i adeiladu llwybr beicio integrol ar gyfer yr A494(T).

*Y Gorchymyn Llinell a Phont*

8.2 Byddai’r bont newydd a’i manylebau a hyd y gefnffordd newydd dros Afon Dyfrdwy yn cael eu hawdurdodi a’u hadeiladu gan ddefnyddio pwerau a roddwyd i Weinidogion Cymru fel Awdurdod Priffyrdd yn unol ag Adran 10 ac Adran 106 o Ddeddf Priffyrdd 1980. Byddai’r bont newydd yn briffordd drefol ddwy lôn ddeuol ac yn cynnwys llwybr beicio dwyffordd (gyda hawl tramwy ar droed) a mynedfa cynnal a chadw integrol i gefnffordd yr A494.

*Y Gorchymyn Ffyrdd Ymyl*

8.3 Byddai'r Gorchymyn Ffyrdd Ymyl drafft yn cael ei wneud drwy ddefnyddio'r pwerau a roddwyd i Weinidogion Cymru o dan adrannau 14, 125 a 268 o Ddeddf Priffyrdd 1980. Os caiff ei wneud, bydd yn awdurdodi Gweinidogion Cymru i wella priffyrdd sydd eisoes yn bodoli, i gau priffyrdd sydd eisoes yn bodoli, ac i adeiladu priffyrdd newydd (sy'n cynnwys llwybrau troed, llwybrau beicio, a phriffyrdd amlbwrpas). Bydd hefyd yn awdurdodi cau mynedfeydd preifat i fangreoedd, a darparu mynedfeydd newydd i fangreoedd o'r fath, ac adeiladu priffyrdd dros dro a chau priffyrdd dros dro.

*Y Gorchymyn Prynu Gorfodol*

8.4 Bydd y Gorchymyn Prynu Gorfodol drafft, os caiff ei wneud, yn galluogi Gweinidogion Cymru i gaffael yr holl dir a hawliau dros y tir sy’n angenrheidiol ar gyfer y Cynllun arfaethedig. Wrth lunio’r Cynllun arfaethedig, rhoddwyd sylw i’r ymyrraeth â hawliau pawb sydd â buddiannau yn y tiroedd perthnasol a/neu y byddai’r Cynllun yn effeithio arnynt fel arall.

8.5 Mae’r Gorchymyn Prynu Gorfodol yn unol ag Adrannau 239, 240, 246, 250, 254 a 260 o Ddeddf Priffyrdd 1980. Petai'n cael ei wneud, byddai hyn yn golygu bod Gweinidogion Cymru yn gallu caffael yr holl dir a hawliau dros y tir ar gyfer y Cynllun a'i ddibenion –

(a) adeiladu cefnffordd newydd o'r de-orllewin o lan de-orllewinol Afon Dyfrdwy yng Nghymuned Queensferry yn Sir y Fflint i'r gogledd-ddwyrain o lan gogledd-ddwyreiniol Afon Dyfrdwy yng Nghymuned Sealand, yn Sir y Fflint, yn unol â'r Gorchymyn Llinell a Phont (y cyfeirir ato ym mharagraff 8.2 uchod);

*Sef, adeiladu'r cerbytffyrdd newydd a llwybr beicio dwyffordd integrol cyfagos ar bont newydd dros Afon Dyfrdwy.*

(b) adeiladu a gwella priffyrdd a darparu mynedfeydd newydd i safleoedd o'r gogledd-ddwyrain o Gyfnewidfa Queensferry i’r gogledd-ddwyrain i ogledd-ddwyrain glan gogledd-ddwyreiniol Afon Dyfrdwy, yn y Cymunedau dan sylw yn y Sir dan sylw, yn unol â'r Gorchymyn Ffyrdd Ymyl (y cyfeirir ato ym mharagraff 8.3 uchod);

*Sef, adeiladu Llwybrau Beicio newydd (gyda hawl tramwy ar droed) a Llwybrau Troed newydd i gysylltu'r A494(T) â'r rhwydwaith priffyrdd cyfagos a dulliau mynediad newydd i safleoedd i gymryd lle, neu i gael eu darparu yn ychwanegol at, y rhai y mae'r Cynllun yn effeithio arnynt.*

(c) gwella'r gefnffordd, yn y Cymunedau dan sylw yn y Sir dan sylw;

*Sef, lledu a gwaith arall, o boptu’r bont newydd dros Afon Dyfrdwy, rhwng Cyfnewidfa Queensferry ac i'r gogledd-ddwyrain o Afon Dyfrdwy.*

(d) gwneud gwaith ar gyrsiau dŵr yng nghyswllt adeiladu'r gefnffordd newydd ac adeiladu a gwella priffyrdd eraill a gwneud gwaith arall a grybwyllir uchod;

*Sef, dargyfeiriad mewn rhannau o Ddraen Queensferry (un o brif afonydd Cyfoeth Naturiol Cymru) ar ochr de-ddwyreiniol yr A494(T), a chreu cyfleusterau draenio eraill, gan gynnwys safle gorsaf bwmpio newydd i gymryd lle Gorsaf Bwmpio Queensferry a gollwyd o dan y Cynllun, a gollyngfa newydd i Afon Dyfrdwy, sy'n gysylltiedig ag ardal y Cynllun i Afon Dyfrdwy a'i gorlifdir.*

(e) darparu adeiladau a chyfleusterau i'w defnyddio yng nghyswllt adeiladu, defnyddio a chynnal a chadw'r gefnffordd;

*Sef, cyfleuster archwilio, cynnal a chadw a mynediad i gerbydau ar gyfer safle'r orsaf bwmpio newydd a grybwyllir ym mharagraff (d) uchod.*

(f) defnydd gan Weinidogion Cymru yng nghyswllt y gwelliannau hynny i briffyrdd a gwneud gwaith arall a grybwyllir uchod; a

*Sef, roedd angen galluogi gofod gweithio gweithredol ar ffurf compowndiau gwaith a thir arall i weithredu gwaith y Cynllun a chaiff ei gyfiawnhau ar sail amgylcheddol yn y Datganiad Amgylcheddol.*

(g) lliniaru unrhyw effeithiau niweidiol y bydd bodolaeth neu ddefnyddio rhai o'r priffyrdd y bwriedir eu hadeiladu neu eu gwella yn eu cael ar yr ardal o'u cwmpas.
*Sef, darparu gwaith lliniaru wedi'i dirweddu gerllaw gwaith yr A494(T), gan ddarparu cynefin newydd i ffawna a sgrinio'r gwaith yn weledol gyda'u hamgylchoedd, a gwaith gwella i'r Morfeydd Heli, i lawr yr afon o'r bont newydd, ar lan de-orllewinol Afon Dyfrdwy, i'r de-orllewin o Aber Afon Dyfrdwy oddi ar Lan Bagillt, yng Nghymuned Treffynnon.*

**9. YR ACHOS DROS BRYNU GORFODOL**

9.1 Cyhoeddir y Gorchymyn Prynu Gorfodol drafft o dan Ddeddf Priffyrdd 1980 a Deddf Caffael Tir 1981. Mae'r Gorchymyn Prynu Gorfodol yn cael ei gyhoeddi ar y cyd â'r Gorchmynion drafft canlynol o'r enw:

- Gorchymyn Cefnffordd Dolgellau i fan i'r De o Benbedw (Yr A494) (Disodli Pont Dros Afon Dyfrdwy) 202-

- Gorchymyn Cefnffordd Dolgellau i fan i'r De o Benbedw (Yr A494) (Gwelliant Cyfnewidfa Queensferry i Garden City) (Ffyrdd Ymyl) 202-

9.2 Ar gyfer cynlluniau llai, mae Llywodraeth Cymru yn negodi caffael tir drwy gytundeb yn aml ochr yn ochr â gweithdrefnau prynu gorfodol, lle mae'n golygu caffael tir/hawliau gan ddim mwy na phedwar buddiant fel arfer, er yr ystyrid dechrau negodiadau gyda mwy na hyn pe bai'r sefyllfa'n cyfiawnhau hynny. Mae'n defnyddio pwerau prynu gorfodol ar gyfer pob cynllun arall, ac ar gyfer y cynlluniau llai hynny lle na all ddod i gytundeb gyda phob buddiant ar ôl cyfnod o dri mis.

9.3 Mae'n rhaid i'r Gorchymyn Prynu Gorfodol sicrhau bod y tir a'r hawliau sy'n ofynnol ar gyfer y Cynllun yn cael eu caffael yn amserol, gan gynnwys ei ffyrdd ymyl a'i hawliau tramwy newydd a dulliau eraill o gael mynediad i'r tir y mae'r Cynllun arfaethedig yn effeithio arno, ac er mwyn gallu adeiladu mesurau lliniaru amgylcheddol priodol.

9.4 Ystyrir mai swm y tir a nodir yn y Gorchymyn Prynu Gorfodol ar gyfer y Cynllun yw'r lleiaf sydd ei angen i adeiladu ac wedyn i weithredu ac i gynnal y Cynllun ynghyd â darparu a chynnal a chadw'r mesurau lliniaru amgylcheddol, sy'n angenrheidiol er mwyn osgoi, lleihau a gwneud iawn am effeithiau niweidiol.

9.5 Wrth lunio'r cynigion, rhoddwyd sylw i'r ymyrraeth â hawliau pawb sydd â buddiannau yn y Gorchymyn Prynu Gorfodol ac y byddai'r Cynllun yn effeithio arnynt fel arall.

## 10. Archwilio Dogfennau

10.1 Gellir archwilio copïau o'r Gorchmynion drafft, y Datganiad Amgylcheddol, y Crynodeb Annhechnegol a'r Datganiad i Hysbysu Asesiad Priodol, ynghyd â Lluniad Trefniant Cyffredinol sy'n dangos cynigion y Cynllun, a gwybodaeth ategol arall, yn rhad ac am ddim ar adegau rhesymol yn y lleoliadau adneuo canlynol:

Llyfrgell Glannau Dyfrdwy
Canolfan Hamdden
Chester Road West
Queensferry
Glannau Dyfrdwy
CH5 1SA

Neu yn

Llywodraeth Cymru
Swyddfa Cyffordd Llandudno
Sarn Mynach
Cyffordd Llandudno
LL31 9RZ

10.2 I drefnu apwyntiad i archwilio'r dogfennau, cysylltwch â Swyddog Cyswllt Cyhoeddus y Cynllun, Lucy Barnett ar 0203 1986 257 neu drwy e-bost: Lucy.Barnett@mottmac.com.

10.3 Mae copi o'r Gorchymyn Llinell a Phontydd drafft, y Gorchymyn Ffyrdd Ymyl, a'r Gorchymyn Prynu Gorfodol, a'u Cynlluniau cysylltiedig, a dogfennau eraill, ar gael yn https://llyw.cymru/a494-pont-afon-dyfrdwy.

## 11. CYFLWYNO GWRTHWYNEBIADAU I'R GORCHYMYN PRYNU GORFODOL DRAFFT

11.1 Caiff unrhyw un sy'n dymuno cefnogi neu wrthwynebu wneud hynny drwy ysgrifennu i'r cyfeiriad canlynol, neu drwy anfon e-bost i Trafnidiaeth.YGangenOrchmynion@llyw.cymru, gan ddyfynnu'r cyfeirnod qA2282121 a nodi sail y gwrthwynebiad::

Y Gangen Orchmynion
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
CAERDYDD
CF10 3NQ.

11.2 Os ydych chi'n dymuno gwrthwynebu neu gefnogi, bydd eich gohebiaeth yn cael ei hystyried gan Dîm y Prosiect ac efallai y bydd angen i ni ymgynghori â phobl a sefydliadau y tu allan i Lywodraeth Cymru. Fel rhan o'r broses o ymgynghori ag eraill, efallai y byddwn yn trosglwyddo gwybodaeth iddynt, gan gynnwys gwybodaeth rydych wedi'i rhoi i ni a'ch data personol. Fodd bynnag, dim ond pan fydd angen gwneud hynny i'n galluogi i ddelio â materion y daethoch â nhw i'n sylw y byddwn yn datgelu eich manylion personol. Os nad ydych yn dymuno i ddata personol penodol gael ei anfon ymlaen at drydydd partïon, dylech nodi pam wrth gyflwyno eich gohebiaeth a bydd Gweinidogion Cymru yn copïo'r sylwadau i'r trydydd partïon priodol gyda'r enw a'r cyfeiriad wedi'u tynnu. Os daw'r Cynllun yn destun Ymchwiliad Lleol Cyhoeddus, bydd yr Arolygydd yn gweld yr ohebiaeth i'r Ymchwiliad Lleol Cyhoeddus a allai roi llai o bwys iddynt o ganlyniad. Bydd yr holl ohebiaeth yn cael ei chadw yn Llyfrgell yr Ymchwiliad Lleol Cyhoeddus ac ar gael i'r cyhoedd.

11.3. Dylid anfon unrhyw wrthwynebiadau, cefnogaeth neu awgrymiadau am ddewisiadau amgen i gyrraedd erbyn 11 Tachwedd 2025 fan bellaf.

**12. Y Broses Benderfynu**

12.1 Fel rhan o'r broses gyfreithiol, bydd Gweinidogion Cymru yn ystyried yr holl ymatebion i'r Gorchmynion drafft ac yna'n penderfynu a ddylid cynnal Ymchwiliad Cyhoeddus Lleol.

12.2 Byddai Gweinidogion Cymru wedyn yn penderfynu a ddylid gwneud y Gorchymyn Prynu Gorfodol a'r Gorchymyn Llinell a Phont a'r Gorchymyn Ffyrdd Ymyl cysylltiedig ar ôl ystyried canfyddiadau ac argymhellion yr arolygydd annibynnol, pe bai Ymchwiliad Lleol Cyhoeddus yn cael ei gynnal.

**13. Gweithdrefnau ar ôl y Penderfyniad**

13.1 Petai'r Gorchymyn Prynu Gorfodol yn cael ei wneud a'r Cynllun yn mynd ymlaen i gael ei adeiladu, byddai Gweinidogion Cymru, drwy eu hasiant prisio, yn cynnal negodiadau â'r holl dirfeddianwyr yr effeithir arnynt yn uniongyrchol ynghylch iawndal am y tir a'r hawliau sydd eu hangen a, lle bo hynny'n briodol, cynnal unrhyw adeiladwaith hwylustod ar dir a gedwir er mwyn lliniaru effaith y Cynllun.